Lee Day

01437 775855

16 Gorffennaf 2020

LLYTHYR YN NODI'R TREFNIADAU AR GYFER DYCHWELYD I'R YSGOL YM MIS MEDI

Mae llythyr yn cael ei anfon yr wythnos hon at rieni a gofalwyr Sir Benfro ynghylch trefniadau dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Mae'r llythyr, gan y Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Plant ac Ysgolion, Steven Richards-Downes, yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ailagor ysgolion yn ddiogel ar ôl gwyliau'r haf.

Mae llythyr Mr Richards-Downes yn nodi y bydd ysgolion, ar ddechrau'r tymor nesaf, yn:

- Ailagor i staff ddydd Mawrth, 1 Medi
- Cynllunio a pharatoi ar gyfer dychwelyd dysgwyr drwy adolygu asesiadau risg a phrosesau i sicrhau y gall ysgolion groesawu dysgwyr yn ôl yn ddiogel
- Blaenoriaethu grwpiau o ddysgwyr i fynychu'r ysgol yn yr wythnos gyntaf ar y dydd Iau 3 Medi a dydd Gwener 4 Medi
- Cynyddu nifer y dysgwyr i'r eithaf a chynyddu'r niferoedd yn ddiogel trwy'r wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 7 Medi, gan arwain at ddychweliad llawn erbyn dydd Llun 14 Medi.

Bydd ysgolion yn cyfathrebu'n uniongyrchol â rhieni a gofalwyr am eu trefniadau.

Yn ôl Mr Richards-Downes: "Bydd gan bob ysgol ei heriau ei hun i ddelio â nhw. Bydd y rhain yn cynnwys pethau fel staffio, arlwyo, glanhau, trafnidiaeth ac ati.

"Byddwn yn gweithio'n fanwl ar y rhain dros yr wythnosau nesaf."

Mae'n bwysig nodi na fydd darpariaeth gofal plant ar gyfer plant gweithwyr allweddol ym mis Medi.

Bydd Cyngor Sir Penfro yn parhau i ddarparu cymorth i ysgolion a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda hwy yn ystod yr wythnosau nesaf.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn parhau i gynorthwyo penaethiaid a staff ysgolion sydd wedi gweithio dan bwysau eithriadol yn ystod y cyfnod clo.

Dywedodd Mr Richards-Downes y bydd y Cyngor yn parhau i gyfathrebu dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf drwy wefan yr Awdurdod a sianeli'r cyfryngau cymdeithasol.

Ychwanegodd Mr Richards-Downes: "Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth ac am weithio gyda ni a'n hysgolion yn ystod y cyfnod anodd hwn.

"Drwy barhau i gydweithio, rwy'n hyderus y gallwn wneud y gwaith o ddychwelyd i'n hysgolion yn llwyddiannus."

I gael y cyngor a'r datganiadau i'r wasg diweddaraf yn ymwneud â'r coronafeirws, edrychwch ar: ***www.sir-benfro.gov.uk/coronafeirws***

Ar gyfer ymholiadau'r wasg, e-bostiwch:
presspublicrelations@pembrokeshire.gov.uk